

Art Babas

Sesiwn 1: Dechrau o'r dechrau efo toes halen rhwydd:

Ryset toes halen:

(Cyngor cyfrwys: Gallwch bobu siapau toes gan y plant yn y ffwrn ar 180°C (350°F) am 45munud i'w caledu)

Mae'r ryset hyn yn gwneud digon o does I 3 o blant.

Bydd angen arnoch:

- Lliw bwyd (neu, os nad oes rhai gennych, gallwch ddefnyddio dab o baent diwenwyn)
- 1 cwpan o flawd
- 1/2 cwpan o halen (mae hyn yn atal y toes rhag pydri os ydyn am ei storio, ond gallwch ddefnyddio llai o halen os nad os yw'n brin)
- 1/2 llwy fwrdd o olew coginio
- 1/2 cwpan o ddŵr
- Bowlen
- Llwyau

Cymysgwch sawl diferyn o liw bwyd gyda'r ddŵr ac olew, a chyfunwch yn raddol gyda'r cynhwysion sych (ychwanegwch ychydig o'r ddŵr ar y tro - gallwch ychwanegi mwy wedyn os oes angen!).

Tylinwch y toes. Ychwanegwch ychydig o flawd os ydyw'n rhy wlyb, neu ychydig o ddŵr os yw'n friwsionllyd. (*Mae plant yn caru tylino'r toes! Os ydych yn poeni am lanast, rhowch y cynhwysion mewn i fag plastic zip-lock, a gall y plant ei wasgu rhwng eu dwylo nes i bopeth cyfuno.) Gallwch gadw'r cymysgedd yn yr oergell os ydych am ei ddefnyddio eto, ond mae'n tueddu i droi'n friwsionllyd ar ôl amser. Ychwanegwch blant, rholbren, stampiau, siapau torri, a mwynhewch! (Cyngor- mae hyn yn gweithio'n dda ar hambwrdd cadair uchel)



Pa siapau gallwch chi ddarganfod gan ddefnyddio eitemau'r cartref? Dyma rhai y gwnaeth Arfon a fi dod o hyd iddynt!....

- Ceisiwch modeli'r siapau yma
- Selsig (ymunwch saith at ei gilydd i greu enfys!)
- Pêl
- Ciwb
- Crempog fflat

Cymraeg

English

Golau ('Goh-lye')

Light

Lliw ('Shliw')

Colour

Siap ('Shaarp')

Shape

Paent ('Pint')

Paint

Enfys ('En-veess')

Rainbow

Toes ('Toyss')

Dough

Rolio ('role-eeoh')

Roll

Lliwiau'r Enfys / Rainbow song

Coch a **melyn** a **pinc** a **gwyrd**,

Red and **Yellow** and **pink** and

Porffor ac **oren** a **glas**.

green,

Dyma lliwiau'r enfys,

Purple and **orange** and **blue,**

Lliwiau'r enfys,

I can see a rainbow,

Lliwiau'r enfys hardd.

See a rainbow,

Can you see it too?

